



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# CYMRU DDI-FWG

## ADRODDIAD DIGWYDDIAD YMGYSYLLTU Â RHANHDDEILIAID



**Dewiswch fod yn Ddi-fwg**  
Choose Smokefree

**HELPA FI  
STOPIO  
HELP ME  
QUIT**

---

## Cynnwys

---

1.0	<b>Cyflwyniad</b>	2
2.0	<b>Grŵp Adborth: Strategaeth Rheoli Tybaco i Gymru, Cymru Ddi-fwg</b>	3
2.1	<b>Beth yn eich barn chi, yw manteision ac anfanteision yr uchelgais i sicrhau Cymru ddi-fwg erbyn 2030?</b>	3
2.2	<b>Thema 1: Lleihau Anghydraddoldebau</b>	5
2.2.1	Ydych chi'n cytuno mai Lleihau Anghydraddoldebau yw'r thema gywir?	5
2.3	<b>Thema 2: Cenedlaethau'r Dyfodol</b>	7
2.3.1	Ydych chi'n cytuno mai Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r thema gywir?	7
2.4	<b>Thema 3 – Dull System Gyfan</b>	9
2.4.1	Ydych chi'n cytuno mai Ymagwedd System Gyfan yw'r thema gywir?	9
3.0	<b>Grŵp Adborth: Tuag at Gynllun Cyflawni Cymru Ddi-fwg (drafft) 2022-2024.</b>	11
3.1	<b>Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 1: Amgylcheddau Di-fwg</b>	11
3.1.1	A ydych yn teimlo bod yr uchelgais o ddod yn Gymru ddi-fwg yn gywir? Ac os na, beth yw eich awgrymiadau ynglŷn â dewisiadau amgen?	11
3.2	<b>Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 2 - Gwelliant parhaus a chefnogaeth i arloesi</b>	13
3.2.1	A ydych yn teimlo bod yr uchelgais o ddod yn Gymru ddi-fwg yn gywir? Ac os na, beth yw eich awgrymiadau ynglŷn â dewisiadau amgen?	13
3.3	<b>Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 3: Grwpiau â Blaenoriaeth</b>	16
3.3.1	A ydych yn teimlo mai dyma'r flaenoriaeth gywir i gyflawni'r uchelgais o ddod yn Gymru ddi-fwg Ac os na, beth yw eich awgrymiadau ynglŷn â dewisiadau amgen?	16
3.4	<b>Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 4: Mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon a chefnogi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli tybaco</b>	18
3.4.1	A ydych yn teimlo mai'r uchelgais hwn yw gwireddu'r uchelgais o ddod yn Gymru ddi-fwg? Ac os na, beth yw eich awgrymiadau ynglŷn â dewisiadau amgen?	18
3.5	<b>Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 5: Gweithio ledled y DU</b>	20
4.0	<b>Neges i'r Gweinidog</b>	22
5.0	<b>Casgliad</b>	24

---

## 1.0 Rhagymadrodd

---

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r pwyntiau allweddol o drafodaethau grŵp a gynhaliwyd fel rhan o ddigwyddiad ymgysylltu â Rhanddeiliaid Cymru Ddi-fwg a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2022.

Roedd y digwyddiad ar-lein hwn yn rhoi cyfle i sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n ymwneud â neu â diddordeb mewn rheoli tybaco yng Nghymru drafod a gwranddo ar safbwyntiau yn ymwneud a'r camau sydd eu hangen i gefnogi'r uchelgais di-fwg a nodir yn Strategaeth Rheoli Tybaco Cymru, Cymru Ddi-fwg a'r Cynllun Cyflawni cyntaf, *Tuag at Gynllun Cyflawni Cymru Ddi-fwg 2022-2024*.

Fel rhan o ddigwyddiad y bore bu'r cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp mewn 'Ystafell Zoom. Roedd y 70 oedd yn bresennol yn cynrychioli rhanddeiliaid o bob rhan o Gymru ac fe'i rhannwyd ar hap yn chwe grŵp, a gafodd eu hwyluso a'u cofnodi'n annibynnol. Roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli sefydliadau o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, addysg bellach ac uwch, elusennau, sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a safonau masnach.

Roedd y trafodaethau'n dilyn canllaw pwnc safonol. Amcan y sesiwn sgwrsio grŵp oedd casglu barn rhanddeiliaid:

1. Archwilio manteision ac anfanteision canfyddedig uchelgais Cymru ddi-fwg 2030
2. Ystyried y themâu strategol a nodir yn y strategaeth ac awgrymu dewisiadau amgen posibl.
3. Myfyrio ar y 5 maes gweithredu â blaenoriaeth a'u camau gweithredu sydd yn y cynllun cyflawni 2 flynedd gyntaf.

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn yr un fformat, gan nodi themâu allweddol o dan bob maes Thema a Blaenoriaeth, ac yn cynnwys ystod gynhwysfawr o ddyfyniadau perthnasol i adlewyrchu'n llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan gyfranogwyr.

---

## 2.0 Adborth Grŵp: Strategaeth Rheoli Tybaco i Gymru, Cymru Ddi-fwg

---

Ar ddechrau'r digwyddiad, gofynnwyd i'r cynadledwyr nodi, drwy bleidlais ar-lein, a oeddent yn cytuno ag uchelgais Llywodraeth Cymru i Gymru ddod yn ddi-fwg erbyn 2030? Mae'n werth nodi cyn rhoi adborth ar drafodaethau grŵp bod 98% wedi dweud ie a'r 2% arall wedi nodi 'yn rhannol'.

---

### 2.1. Beth yn eich barn chi, yw manteision ac anfanteision yr uchelgais i sicrhau Cymru ddi-fwg erbyn 2030?

---

#### Manteision

Roedd manteision iechyd i'r cyhoedd yn gryf gyda'r sylwadau'n crybwyll ei 'fantais' fel polisi di-fwg, gan gynnwys 'poblogaeth feichiog ddi-fwg'. Roedd y cynadledwyr yn cysylltu'r buddion iechyd ag arbedion 'enfawr' i'r GIG.

Teimlai rhai bod y manteision yn amlwg, gydag eraill yn ymchwilio i fuddion mwy penodol ar y dechrau, megis :-

- Soniwyd am y diffyg anghydraddoldebau o fewn y gymuned mewn dau grŵp gyda grŵp arall yn cyfeirio at leihad mewn gwaharddiadau a achosir gan ysmegu megis tai a gwaith.
- Manteision i bobl ifanc a phwysigrwydd ffocws ar eu hanghenion ac addysg mewn perthynas ag ysmegu, gan gynnwys hyfforddiant i athrawon ysgol a rhieni.

Yn y pen draw, roedd y cynadledwyr yn gadarnhaol am yr uchelgais (gan gefnogi canlyniadau'r pŵl):- *'mae'n fodd o newid cwrs, yn wych fod Cymru'n arwain*

#### Anfanteision

Amlygodd y cynadledwyr y mesuriadau, uchelgais, ffocws rhanbarthol, a pheryglon 'diffygiadau' amgen fel anfanteision posibl y strategaeth i sicrhau Cymru ddi-fwg erbyn 2030.

Soniodd y rhan fwyaf o grwpiau am faint yr her a chwestiynu a yw'n gyraeddadwy. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *'A yw'n gyraeddadwy gan mai nicotin yw un o'r cyffuriau anoddaf i roi'r gorau iddo?'*
- *'Gall gosod targedau rhy uchelgeisiol arwain at effaith negyddol, yn ddigalondid.'*
- *'Rhaid ystyried prinder staff, gall hyn arwain at leihad mewn brwdfrydedd.'*
- *Angen cydnabod nad yw pob bwrdd iechyd yn dechrau o'r un fan, mae gan un bwrdd iechyd, gyfradd ysmegu o 25%*

Soniodd dau grŵp am yr angen i ystyried gwahaniaethau rhanbarthol fel rhan o'r strategaeth

- *'Mae angen targedu rhai ardaloedd â chyffredinedd uwch, yn wledig ac yn drefol'*
- *'Angen ystyried gwahaniaethau rhanbarthol, cadw gwasanaethau wedi'u teilwra'*

Soniodd grwpiau hefyd am bwysigrwydd deall cymhellion amrywiol pobl i ysmegu a bod yn ymwybodol o ddewisiadau amgen i ysmegu

- *'Gochelwch rhag y dewisiadau amgen a gwthio pobl atynt, mae e-sigaréts yn hudolus ac ar gael yn rhwydd, ni allwn ganolbwyntio ar dybaco yn unig, gallai hynny arwain at ganlyniadau anfwriadol'*

---

## 2.2 Thema 1: Lleihau Anghydraddoldebau

---

Mae cyfraddau ysmegu a'r defnydd o gynhyrchion tybaco eraill yng Nghymru yn amrywio gyda thystiolaeth bod cyfraddau ysmegu'n uwch mewn grwpiau penodol, gan gynnwys y rhai:

- sy'n byw mewn ardaloedd cymdeithasol-economaidd difreintiedig
- sydd mewn swyddi arferol a gwaith llafuriol
- sy'n ddi-waith
- gyda chyflyrau iechyd meddwl
- sydd o rai cefndiroedd ethnig lleiafrifol
- sydd o'r gymuned LHDTC+.

---

### 2.2.1 Ydych chi'n cytuno mai Lleihau Anghydraddoldebau yw'r thema gywir?

---

Cytunodd mwyafrif helaeth o'r cynadledwyr mai dyma'r thema gywir, gydag un yn unig yn anghytuno. Cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol o'r pwysau a wynebier gan y grwpiau hyn a'r angen i wneud rhagor i'w cefnogi, i ddeall ffactorau ehangach a allai gyfrannu at eu harferion ysmegu, yn enwedig y rhai sy'n derbyn cymorth iechyd meddwl.

Er i'r thema gwrdd â chefnogaeth eang bu'r cynadledwyr hefyd yn trafod yr heriau sylweddol o fynd i'r afael â'r mater hwn ac yn arbennig i ddod gostwng y ganran i 5% ymhlith y grwpiau hyn. Roedd y sylwadau'n cynnwys:-

- *'Rydym angen cynghorwyr, grwpiau cymorth yn y gymuned.'*
- *'Mae data cywir yn allweddol i alluogi ymgysylltu â rhanddeiliaid a hwyluso negeseuon.'*
- *'Angen bod yn ymwybodol o effaith Covid ar iechyd (yn enwedig iechyd meddwl), cymdeithas ac effaith economaidd gyffredinol.'*
- *'Gall ysmygwyr berthyn i amrywiol grwpiau gydag anghenion cymhleth, mae angen ymrwymiad i adolygu.'*
- *'Mae angen cynllun sy'n gwrando ar adborth ac yn cynnal adolygiadau yn unol â hynny, er mwyn grymuso pobl i gefnogi'r newid.'*
- *'Mae'n hollbwysig canolbwyntio ar anghydraddoldebau, ond mae'n dasg enfawr gostwng i 5% ymhlith y grwpiau hyn.'*

- ‘Dylai cytundebau tenantiaeth gynnwys cymal cytundeb di-fwg.’

Mae'n arwyddocaol o faint yr her efallai mai ychydig o atebion a gynigiwyd ac eithrio pwysigrwydd data cywir a dull partneriaeth ag adnoddau da, a arweinir gan y gymuned.

---

## 2.3 Thema 2: Cenedlaethau'r Dyfodol

---

Mae ysmygu yn effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc trwy gydol eu plentyndod, o feichiogrwydd i lencyndod.

Ffocws y thema hon yw creu amgylchedd lle mae di-fwg yn norm i holl blant a phobl ifanc Cymru ac yn parhau i fod yn ddi-fwg hyd nes y byddant yn oedolion.

---

### 2.3.1 Ydych chi'n cytuno mai Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r thema gywir?

---

Cytunodd pob grŵp mai dyma'r thema gywir, gyda llawer o gynrychiolwyr yn angerddol iawn am ei phwysigrwydd a sawl grŵp yn datgan yr angen am ragor o ffocws ar y thema hon nag eraill gan fod 'atal yn fwy effeithiol na rhoi'r gorau iddi'.

Ymhlith y themâu a ddaeth i'r amlwg roedd pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a gyflwynir gan y thema hon, a'r angen am ymddygiadau arloesol i gyfathrebu'n effeithiol, yn enwedig gyda phobl ifanc. Roedd y sylwadau'n cynnwys:-

- *'Mae'n thema allweddol sy'n ymddangos yn hawdd ar yr olwg gyntaf ond mae'n anodd ei gweithredu, yn enwedig gyda phobl feichiog. Mae angen dull ehangach a gwahanol i'w cefnogi gan fod rhai yn wynebu diffyg cefnogaeth teulu. Rhaid ystyried diffyg adnoddau hefyd, yn enwedig ar gyfer ymweliadau cartref.'*
- *'Bydd angen monitro a threialu rhaglenni.'*
- *'Mae'n hollbwysig canolbwyntio ar bobl ifanc a defnyddio technoleg i ddarganfod y ffordd orau o ymgysylltu â nhw.'*
- *'Creu llwyfan digidol efallai i rannu gwybodaeth, syniadau – wedi'u hanelu at bobl ifanc a rhieni.'*
- *'Mae gormod o ffocws ar roi'r gorau iddi a llai o ffocws ar atal.'*
- *'Mae'n hanfodol canolbwyntio ar atal, mae'r cynllun yn canolbwyntio gormod ar roi'r gorau iddi.'*
- *'Mae angen dull deddfwriaethol cryf, yn debyg i fodel Seland Newydd efallai.'*



Thema arall a ddaeth i'r amlwg oedd yr angen am ymwybyddiaeth o 'fesurau' amgen megis cannabis ac e-sigaréts,

- *'Mae angen rhoi rhagor o ystyriaeth i fewnanadlu a'r dystiolaeth o'i niwed.'*
- *'Mae'n bwysig peidio creu rhwystrau i bobl ifanc sy'n defnyddio mewnanadlu fel arf i roi'r gorau iddi.'*
- *'Mae offer mewnanadlu nad ydynt yn nicotin ar gael i rai dan 18 oed, ystyrir hyn yn gadarnhad eu bod yn iawn. Ydyn nhw'n arwain at y defnydd o dybaco?'*
- *'Angen ystyried cannabis hefyd a'r cysylltiad ag ysmegu, mae mwy o dystiolaeth bod y defnydd o ganabis yn cynyddu wrth i'r defnydd o dybaco leihau.'*

---

## 2.4 Thema 3 - Dull System Gyfan

---

Er mwyn cyflawni'r uchelgais o Gymru ddi-fwg, rhaid mabwysiadu dull system gyfan o reoli tybaco. Golyga hyn bod pawb yn cydweithio mewn ymdrech ar y cyd i gyfrannu at y weledigaeth gyffredin hon i gyflawni newid.

---

### 2.4.1 Ydych chi'n cytuno mai Dull System Gyfan yw'r thema gywir?

---

Unwaith eto, roedd y grwpiau'n cytuno mai dyma'r thema gywir. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar bwysigrwydd arweinyddiaeth sefydliadol glir a systemau i sicrhau y gall partneriaid gydweithio'n effeithiol i gefnogi ysmygwyr, gyda'r gallu i rannu allwedd data. Mynegodd sawl grŵp yr angen i Lywodraeth Cymru arwain, er mwyn dod a chymunedau ynghyd. Roedd y sylwadau'n cynnwys:-

- *'Pwy fydd yn arwain y dull system gyfan?'*
- *'Angen arweinyddiaeth system hefyd. Mae'n bwysig deall y berthynas rhwng rhoi'r gorau iddi, atal a rheoleiddio.'*
- *'Ar hyn o bryd mae gwahanol wasanaethau yn defnyddio gwahanol systemau TG i gasglu data defnyddwyr. Angen sefydlu mecanwaith cenedlaethol cyson sy'n gyd fynd a systemau cyfredol.'*
- *'Ar hyn o bryd mae gormod o gynlluniau a chyfrifoldebau, mae angen i ni gyfuno systemau, rhannu'r hyn sydd wedi'i wneud, gweld lle mae cryfderau a gwendidau a chreu systemau modern.'*
- *'Angen ymateb cyflymach gan Helpa Fi i Stopio/LIC, mwy o rannu arfer da.'*
- *'Hefyd cydweithio i rannu data, mae angen sefydlu mecanwaith cenedlaethol sy'n cynnwys systemau cyfredol.'*
- *'Gadewch i asiantaethau gynllunio ac i gymunedau ymarfer ym mhob rhanbarth.'*
- *'Mae cysondeb yn allweddol. Cysylltu â dull y DU at newid agweddau.'*

Er bod llawer o'r drafodaeth yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth, roedd pwysigrwydd dull sy'n canolbwyntio ar y cwsmer yn amlwg:-

- *'Mae'n anodd i ysmygwyr wybod at bwy i droi am gymorth, mae angen mynediad hawdd at gymorth.'*

- *'Mae angen i unrhyw ddull gysylltu â ffactorau ehangach fel pwysau corfforol, sut mae ysmegu'n cysylltu â chamddefnyddio sylweddau, tai cymdeithasol, cysylltiadau ag iechyd meddwl, cymeriant alcohol. Dewch â'r themâu hyn at ei gilydd, yn hytrach na gweithio ar eich pen eich hun. Llygredd hefyd.'*
- *'Mae angen i'r iaith fod yn fwy cefnogol, hefyd angen mynd i'r afael â mewnanadlu yn lle canolbwyntio'n ormodol ar 'reoli tybaco'.'*

---

### 3.0 Adborth Grŵp: Tuag at Gynllun Cyflawni Cymru Ddi-fwg (drafft) 2022-2024.

---

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni 'Cymru Ddi-fwg', bwriad Llywodraeth Cymru yw cyhoeddi cyfres o gynlluniau cyflawni dwy flynedd. Roedd yr adran hon yn canolbwyntio ar y **pum maes gweithredu â blaenoriaeth** yn y cynllun cyflawni dwy flynedd drafft, sy'n cwmpasu Ebrill 2022 - Mawrth 2024.

---

#### 3.1 Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 1: Amgylcheddau Di-fwg

---

Mae amgylcheddau di-fwg yn bwysig ar gyfer lleihau amlygiad i fwg ail-law, sydd â manteision iechyd, yn ogystal â chefnogi newid agweddau tuag at ysmegu. Rhoddwyd sawl polisi safleoedd di-fwg ar waith eisoes yng Nghymru. Megis:

- gwaharddiad ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus caeedig a gweithleoedd yn 2007
- gwahardd ysmegu mewn ceir sy'n cludo plant yn 2015
- gwahardd ysmegu mewn mannau cyhoeddus gan gynnwys tiroedd ysbytai, tiroedd ysgol, mannau awyr agored lleoliadau gofal plant a meysydd chwarae cyhoeddus yn 2021.

---

##### 3.1.1 A ydych yn teimlo mai dyma'r flaenoriaeth gywir i gyflawni'r uchelgais o ddod yn Gymru ddi-fwg? Ac os na, beth yw eich awgrymiadau ynglŷn â dewisiadau amgen?

---

Ar y cyfan, roedd y cynadleddwyr yn cefnogi'r flaenoriaeth, ond mynegodd grwpiau bryderon sylweddol ynglŷn â 'plismona' neu 'orfodi' amgylcheddau di-fwg ar hyn o bryd gan amlygu pwysigrwydd darparu adnoddau ar gyfer yr elfen hon.

Gofynnodd y mwyafrif o'r grwpiau am ddadansoddi tystiolaeth er mwyn sefydlu'r camau gweithredu a gafodd yr effaith fwyaf, gan ychwanegu bod monitro amgylcheddau di-fwg wedi'i ganfod yn her. Nid oes gan Awdurdodau Lleol, er enghraifft, y capasiti ar gyfer gorfodaeth leol. Gofynnodd sawl un ynglŷn â chefnogaeth ariannol ar ffurf swyddogion gorfodi.

Awgrymodd rhai, o ystyried y pryderon ynglŷn â gorfodaeth, y dylid cyfeirio adnoddau at fannau eraill gan holi a ddylai hyn barhau'n flaenoriaeth yn y cynllun cyflawni.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *'Mae creu amgylcheddau di-fwg mewn sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod bod gweithredu a monitro amgylcheddau di-fwg mewn ysbytai wedi bod yn heriol.'*
- *'Nid yw gweithredu a monitro'r deddfwriaeth bresennol ar amgylcheddau di-fwg yn gweithio mewn ysbytai. Mae staff sy'n ysmegu yn gadael y safle er mwyn ysmegu, sy'n golygu bod wardiau heb staff digonol ac felly'n agored i niwed, sy'n rhwystredig iawn.'*
- *'Ni ddylai camau deddfwriaethol hirfaith i greu manau di-fwg gael blaenoriaeth dros gamau gweithredu eraill a allai gael gwell effaith.'*
- *'Pwysig monitro manau di-fwg presennol.'*
- *'Mae monitro'n anodd, a fyddai'n well dyrannu arian rhywle arall?'*
- *'Mae gorfodi sefydliadau'r sector cyhoeddus i roi amgylcheddau di-fwg ar waith yn bwysig a bydd yn cysylltu â thema 3.'*
- *'Efallai na fydd yn fuddiol neilltuo ysmegu i fannau eraill fel ceir, neu oddi ar y safle.'*
- *'Ydyn ni'n cyrraedd pwynt dirlawnder?'*
- *'Ehangu'r gwaharddiad i bob maes ble ceir nifer uchel o blant e.e. canolfannau hamdden'*

Yr atebion posibl a gynigiwyd oedd:-

- *'Un ateb posibl fyddai annog y defnydd o fecanweithiau adrodd yn ôl presennol ar gyfer digwyddiadau peryglus i amlygu'r risgiau a berir gan amgylchiadau o'r fath.'*
- *Mae gwasanaethau rhoi'r gorau i smegu ar gael yn rhwydd i staff ysbytai sy'n ysmegu, ond ni chyfeirir staff ac nid ydynt yn cael amser i fynychu gwasanaethau o'r fath, felly ni ddefnyddir y gwasanaethau.'*

---

## 3.2 Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 2 - Gwelliant parhaus a chefnogaeth i arloesi

---

### Camau Gweithredu Arfaethedig

1. Gweithredu gwasanaeth gofal eilaidd systematig rhoi'r gorau i ysmegu yng Nghymru gan ddefnyddio enghreifftiau o Fodel Ottawa Canada ar gyfer Rhoi'r Gorau i Ysmegu.
2. Optimeiddio'r ddarpariaeth rhoi'r gorau i ysmegu ac atal y nifer sy'n dechrau ysmegu yn barhaus. Archwilio dulliau arloesol a digidol i leihau'r nifer sy'n dechrau ysmegu a hybu rhoi'r gorau i ysmegu. Sicrhau cefnogaeth gyson i ysmygwyr. Cynyddu'r nifer sy'n dechrau rhoi'r gorau i ysmegu. Gweithio gyda grwpiau sydd â'r nifer fwyaf o achosion o ysmegu neu'r nifer lleiaf sy'n defnyddio gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu i ddeall y rhwystrau i roi'r gorau i ysmegu ac archwilio atebion arloesol.
3. Archwilio rôl e-sigaréts a chynhyrchion nicotin eraill ar gyfer rhoi'r gorau i ysmegu.

---

### 3.2.1 A ydych yn teimlo mai dyma'r flaenoriaeth gywir i gyflawni'r uchelgais o ddod yn Gymru ddi-fwg? Ac os na, beth yw eich awgrymiadau ynglŷn â dewisiadau amgen?

---

Roedd y rhanddeiliaid yn gefnogol i'r flaenoriaeth hon, fodd bynnag, oherwydd ystyr eang y term 'arloesi' roedd pynciau trafod yn llawer mwy amrywiol nag yn y themâu a blaenoriaethau eraill. Roedd yr adborth yn cynnwys trafodaethau a syniadau yn ymwneud â thactegau digidol, addysg, mentrau cymunedol, gofal eilaidd, cymorth un-i-un a phwysigrwydd cydnabod effeithiau ehangach y sefyllfa economaidd-gymdeithasol bresennol. Trafodwyd pwysigrwydd data cyson ac un system eto yn yr adran hon. Roedd y sylwadau'n cynnwys:-

- *'Mae angen rhagor o eglurder ar Fodel Ottawa, bydd angen mwy o adnoddau i'w roi ar waith yn llwyddiannus.'*
- *'Canolbwyntiwch ar helpu plant sydd wedi dechrau ysmegu i roi'r gorau iddi.'*
- *'Mae angen mwy o gymorth ar gyfer y gwasanaeth nyrsys ysgol; mwy o amser, hyfforddiant ac adnoddau i fynd i'r afael ag ysmegu.'*
- *'Cysylltwch â CURE Project, model rhoi'r gorau i ysmegu mewn ysbytai yn y DU, sydd*

*eisoes wedi'i sefydlu mewn llawer o leoliadau ac felly byddai'n gymharol gyflym a chost-effeithiol i'w ddatblygu, er bod angen mwy o gysondeb a chefnogaeth ar wardiau.'*

- *'Gall dulliau digidol fod yn wych i ymgysylltu. Angen defnyddio cyfryngau cymdeithasol, gweithio gyda dylanwadwyr.'*
- *'Mae dulliau digidol yn un opsiwn, ond nid ydynt bob amser yn cael yr un effaith â chyswllt un-i-un, nid yr un berthynas.'*
- *'Angen cadw sefyllfaoedd economaidd-gymdeithasol mewn cof – peidiwch â gwneud cymorth yn anhygyrch, neu'n anfforddiadwy.'*
- *'Adeiladu cydnherthedd cymunedol yw'r ffordd ymlaen, sy'n cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.'*
- *'Byddai cynllun gofal eilaidd cenedlaethol yn ddefnyddiol. Mae angen cydnabod bod angen cymorth ar bobl i barhau i leihau/rhoi'r gorau i ysmegu.'*
- *'Mae gan ardaloedd daearyddol gwahanol adnoddau gwahanol iawn a gallai timau llai ei chael yn anodd bodloni gofynion y cynnig yn llwyddiannus.'*
- *'Rwy'n falch o'r geiriad gan nad oes gan rai Byrddau Iechyd ofal eilaidd. Angen dull hyblyg ar gyfer y gwahanol fyrddau iechyd. Yna gall pob bwrdd iechyd weithredu fel y gwelant yn briodol.'*
- *'Byddai data cenedlaethol yn ddefnyddiol hefyd.'*
- *'Systemau sydd eu hangen i gasglu data a systemau sydd eu hangen ar gyfer adrodd yn ôl. Nid oes gan ein Bwrdd Iechyd system ar waith i gofnodi nifer yr ysmygwyr sy'n mynd i'r ysbyty. Angen llinell sylfaen i gymharu cynnydd â Byrddau Iechyd eraill.'*

Bu sawl grŵp hefyd yn trafod effaith e-sigaréts ac yn gofyn am eglurder ynglŷn â'r hyn a olygir gan 'archwilio rôl e-sigaréts':-

- *'Beth mae archwilio rôl e-sigaréts yn ei olygu? Ai nhw yw'r ateb? Mae rhai pobl yn dweud eu bod yn arwain at fwy o ysmegu. Mae rhai pobl yn dweud na ddylai pobl gael eu hannog i'w defnyddio. Angen neges gyson.'*
- *'Rydym angen eglurhad ar e-sigaréts. Dywedodd y Gweinidog eu bod yn rhan o'r ateb, ac eto mae rhai awdurdodau lleol wedi gwahardd e-sigaréts gan arwain at negeseuon cymysg. Beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru? Beth ddylai pobl fod yn ei ddweud wrth gleifion/y cyhoedd?'*

- *'Mae yna eisoes faterion yn ymwneud ag e-sigaréts o safbwynt safonau masnach. Mae angen ystyried yn ofalus a yw'r cynhyrchion yn ddiogel cyn symud ymlaen'*



---

### 3.3 Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 3: Grwpiau â Blaenoriaeth

---

#### Camau Gweithredu Arfaethedig

1. Adolygu'r dystiolaeth a'r data ynghylch cymorth i roi'r gorau i ysmegu ar gyfer y grwpiau blaenoriaeth hyn a nodi lle mae bylchau'n bodoli, gan gynnwys lle y gellir cael yr effaith fwyaf.
2. Ymgysylltu â phobl o grwpiau blaenoriaeth a sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau blaenoriaeth i ddeall eu rhesymau dros ysmegu a'r rhwystrau i roi'r gorau i ysmegu, a gweithio gyda hwy i ddatblygu camau gweithredu wedi'u teilwra i gefnogi rheoli tybaco.
3. Cynyddu cyfran y beichiogrwydd di-fwg drwy edrych ar fentrau i leihau ysmegu yn ystod beichiogrwydd a gwneud y gorau o'r ddarpariaeth rhoi'r gorau i ysmegu i bob person beichiog ledled Cymru. Gweithio gyda gwasanaethau mamolaeth i sicrhau'r cofnodi'r statws ysmegu pob merch feichiog ac y gwneir atgyfeiriadau priodol i wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu
4. Sicrhau bod y negeseuon yn glir a chyson ac wedi'u teilwra i wahanol grwpiau blaenoriaeth.
5. Archwilio'r sylfaen dystiolaeth, a gweithio gyda phartneriaid, nodi grwpiau blaenoriaeth ychwanegol y dylem weithio gyda nhw i ddarparu cymorth ychwanegol priodol.

---

#### 3.3.1 A ydych yn teimlo mai dyma'r flaenoriaeth gywir i gyflawni'r uchelgais o ddod yn Gymru ddi-fwg? Ac os na, beth yw eich awgrymiadau ynglŷn â dewisiadau amgen?

---

Derbyniodd y flaenoriaeth hon gefnogaeth y cynadleddwyr yn ogystal, er bod llawer yn gofyn am ragor o fanylion a gwybodaeth benodol ynglŷn â sut y caiff ei chynllunio a'i rhoi ar waith. Daeth yr angen am ddata cywir a dull wedi'i dargedu i'r amlwg fel themâu allweddol. Roedd y sylwadau'n cynnwys:-

- *'Cytuno y dylai pobl feichiog fod yn grŵp blaenoriaeth, ond erbyn i ferched feichiogi mae'n rhy hwyr i gynnig gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmegu. Mae angen ffocws ar ofal/camau gweithredu cyn cenhedlu, gan gynnwys ymyriadau rhagweithiol gyda phobl*

*ifanc mewn lleoliadau addysg - ysgolion, colegau AB ac yn benodol, darparwyr hyfforddiant lle mae nifer uwch o ysmygwyr yn eu harddegau.'*

- *'Archwilio ymyriadau effeithiol sy'n cysylltu â strategaethau i leihau beichiogrwydd yn yr arddegau.'*
- *Sicrhau darpariaeth gyson ar gyfer cymorth rhoi'r gorau i ysmegu yn y gwasanaethau mamolaeth a chasglu data, er mwyn cynorthwyo i fynd i'r afael â phatrymau ysmegu rhwng cenedlaethau.'*
- *'Cytuno'n llwyr â'r grwpiau hyn, ond sut byddwn ni'n mynd i'r afael â nhw yn wahanol i'r hyn a wneir yn awr?'*
- *'Does dim yn newydd yma, ond mae angen rhoi sylw iddo. Sut allwn gael cyllid a chymorth cynyddol a pharhaus?'*
- *'Angen cyllid cynyddol a pharhaus i fynd i'r afael â'r grwpiau hyn yn ddigonol.'*
- *'Mae yn 'grwpiau o fewn grwpiau' yn yr ardaloedd o amddifadedd, ardaloedd Awdurdodau Lleol, cymunedau gyda chyfraddau ysmegu uwch. Angen ymchwilio i ganiatáu ymyrraeth wedi'i thargedu.'*
- *'Mae angen data cywir arnom – darganfyddwch ble gwerthir y tybaco, ei brynu – ac yna targedu'r ardaloedd hynny gyda'r negeseuon cywir.'*
- *'Pwysig gwybod sut mae pobl ifanc yn cael mynediad at dybaco, mae'r arolwg ysgolion blynyddol yn aneglur.'*
- *'Grymuso sefydliadau trydydd sector i feddwl am syniadau y gallant fynd â nhw at yr heddlu ac ati i rannu rhagor o adnoddau.'*
- *'Cysylltu â sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau blaenoriaeth mewn sectorau eraill.'*
- *'Defnyddio terminoleg gadarnhaol i helpu grwpiau lleiafrifol deimlo eu bod wedi'u grymuso, nid eu barnu.'*
- *'Nid yw un maint yn addas i bawb, mae angen cynllunio wedi'i deilwra gan fod yn rhaid i bob ymateb fod yn benodol i'r unigolyn.'*
- *'Angen apelio at fenywod, siarad â nhw ar yr amser iawn. Nid yw ymgyrchoedd bob amser yn gweithio.'*
- *'Angen ystyried lleisiau pob cynulleidfia.'*

---

### 3.4 Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 4: Mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon a chefnogi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli tybaco

---

#### Camau Gweithredu Arfaethedig

1. Adolygu'r dystiolaeth a'r data ynghylch y dirwedd tybaco anghyfreithlon yng Nghymru a nodi lle mae bylchau.
2. Codi ymwybyddiaeth o dybaco anghyfreithlon a'i effeithiau trwy ddeunyddiau ac ymgyrchoedd cyfathrebu.
3. Datblygu system i rannu gwybodaeth am dybaco anghyfreithlon sy'n cefnogi gorfodi effeithiol ledled Cymru.
4. Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys yr Heddlu, CThEM ac Awdurdodau Lleol i archwilio syniadau arloesol i fynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon ledled Cymru.
5. Adolygu'r offer gorfodi rheoli tybaco sydd ar gael yng Nghymru i ddeall a oes angen eu cryfhau a lle.

---

#### 3.4.1 A ydych yn teimlo mai dyma'r flaenoriaeth gywir i gyflawni'r uchelgais o ddod yn Gymru ddi-fwg? Ac os na, beth yw eich awgrymiadau ynglŷn â dewisiadau amgen?

---

Roedd yr adborth yn cefnogi'r flaenoriaeth hon er ei bod yn amlwg bod ymwybyddiaeth o dybaco anghyfreithlon a'i effaith yn amrywio o grŵp i grŵp. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar yr angen am adnoddau addas a chosb ar gyfer camwedd yn ogystal â'r angen i godi ymwybyddiaeth o'r mater a chynlluniau i fynd i'r afael ag ef. Roedd y sylwadau'n cynnwys:-

- *'Mae'r ffocws ar fewnfudo anghyfreithlon yn arwain at lai o graffu ar dybaco anghyfreithlon. Mae angen llais ar Gymru yn nhrefodaethau'r DU.'*
- *'Yn falch iawn fod hyn yn y cynllun gan ei fod angen sylw.'*
- *'Mae hon yn flaenoriaeth bwysig, mae llawer o gamau gweithredu eisoes 'ar y gweill' gan gynnwys gwefan (dim os nac oni bai); pecyn cymorth Cymru gyfan; Gweminarau ar gyfer hyfforddiant heddlu.'*
- *'Mae angen cymorth gan bartneriaid a chodi ymwybyddiaeth pobl o'r hyn sydd ar gael a sut y gellir cael mynediad ato.'*

- *'Dylid cofrestru pob man sy'n gwerthu tybaco ar gofrestrfa fanwerthu i gynorthwyo'r fframwaith rheoleiddio.'*
- *'Mae timau gorfodi Safonau Masnach Awdurdodau Lleol angen 'yr offer i wneud y gwaith' wrth erlyn. '*
- *'Nid yw dirwyon bach yn digalonni'r grwpiau troseddau cyfundrefnol sy'n sefydlu siopau mewn ardaloedd difreintiedig, mae angen iddynt edrych ar ddedfrydu.'*
- *'Mae CThEM wedi diddymu eu tîm Cymru sy'n gyfrifol am dybaco anghyfreithlon. Angen perthynas dda gyda'r heddlu hefyd (yn enwedig PCSOs).'*
- *'Yn bendant mae angen datrys y broblem, mae'r fasnach anghyfreithlon yn golygu colli incwm i'r llywodraeth yn ogystal ag effeithio ar iechyd cyffredinol.'*

Er bod y grwpiau'n cefnogi'r flaenoriaeth a'i phwysigrwydd i raddau helaeth, mynegodd rhai cynadleddwyr bwysigrwydd mynd i'r afael â'r materion ehangach sy'n arwain at ysmygwyr yn prynu tybaco anghyfreithlon:-

- *'Tra bod hyn yn bodoli ni fyddwn yn lleihau lefelau ysmegu. Mae yna barodrwydd yno i gyflawni'r nodau hyn ond mae angen i ni fod yn wylidwrus rhag cynyddu masnach yn anfwriadol, achosi galw o ganlyniad i fesurau newydd.'*
- *'Mae pobl yn gweld manteision arbed arian ac nid ydynt yn meddwl am sgil-ffeithiau cefnogi'r fasnach dybaco anghyfreithlon.'*

---

### 3.5 Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 5: Gweithio ledled y DU

---

#### Camau Gweithredu Arfaethedig

1. Adolygu camau gweithredu a pholisïau rheoli tybaco a roddir ar waith gan wledydd eraill y DU a rhannu arfer gorau ar gamau gweithredu a pholisïau rheoli tybaco yng Nghymru ledled y DU.
2. Parhau i weithio gyda Llywodraethau eraill y DU ar ystod eang o faterion rheoli tybaco heb eu datganoli i gefnogi system rheoli tybaco gref, gan gynnwys:
  - a. oed gwerthu
  - b. effaith amgylcheddol ysmegu
  - c. rhybuddion diogelwch ar dybaco a chynhyrchion nicotin
  - d. prisio tybaco, ardoll, a threth

---

#### 3.5.1 A ydych yn teimlo mai dyma'r flaenoriaeth gywir i gyflawni'r uchelgais o ddod yn Gymru ddi-fwg? Ac os na, beth yw eich awgrymiadau ynglŷn â dewisiadau amgen?

---

Cafwyd cytundeb unffurf ar y flaenoriaeth hon gyda'r grŵp rhanddeiliaid yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu a mesurau cyson ledled y DU.

Roedd llawer o'r adborth yn gofyn am i'r cynllun fynd yn fyd-eang i archwilio arfer gorau a dysgu oddi wrth genhedloedd eraill. Roedd y sylwadau'n cynnwys:-

- *'Ychwanegu cyfeiriad at 'fyd-eang' wrth archwilio arfer gorau.'*
- *'Mae Seland Newydd yn gwahardd gwerthu tybaco i unrhyw un a aned ar ôl 2008. Edrychwch ar yr hyn sy'n gweithio mewn gwledydd eraill, beth yw eu hymagwedd gyffredinol, a beth yw eu neges i'r cyhoedd?'*
- *'Ddim yn siŵr bod hyn yn ddigon uchelgeisiol. Angen ymchwilio ymhellach e.e. Sgandinafia.'*

Tra bod adborth yn gefnogol i'r Flaenoriaeth roedd rhywfaint o amrywiaeth o ran sut y gallai, a sut y dylai Cymru weithio gyda gweddill y DU a pha syniadau sydd angen eu gweithredu, e.e. oedran gwerthu:

- 'Mae angen 'dal i fyny' gyda gweddill y DU. Dylid annog dull gweithredu Lloegr yng nghyswllt e-sigaréts a chymorth dibyniaeth ar dybaco i bobl â phroblemau iechyd meddwl difrifol yng Nghymru hefyd.'
- *'Byddai codi'r oedran gwerthu i 21 yn syniad da.'*
- *'Ni fydd codi oedran gwerthu yn gweithio, mae angen rhagor o addysg.'*
- *'Mae cysondeb mewn deddfwriaeth ar draws y DU yn hanfodol bwysig. Ni ddylai Cymru ddilyn llwybr hollol wahanol i wledydd eraill y DU. Mae'r Pandemig yn dangos pa ddryswch a achosir wrth ddefnyddio gwahanol ddulliau.'*
- *'Dylem sicrhau ein bod yn cymryd agwedd gefnogol yn hytrach na chosbi, ac nid cael ein harwain at awdurdodaeth ond i fod yn gyson â gwledydd eraill y DU.'*

---

#### 4.0 Neges i'r Gweinidog: pe gallech anfon 'Neges i'r Gweinidog' ynglŷn â'r uchelgais i gyflawni Cymru Ddi-fwg, beth fyddai honno?

---

Roedd y negeseuon a gyflwynwyd yn adlewyrchu blaenoriaethau sefydliadol ac yn atgyfnerthu themâu a ddatgelwyd yn ystod y drafodaeth grŵp. Mae'r pynciau'n eang eu cwmpas gyda ffocws arbennig ar yr angen i sicrhau adnoddau da ar gyfer y strategaeth. Yn gysylltiedig â'r cais yma cafwyd negeseuon yn ymwneud â hyfforddiant, systemau data, adnoddau (pwysig), hyfforddiant, data, a phartneriaethau. Roedd pwysigrwydd gwrando ar leisiau grwpiau blaenoriaeth hefyd yn amlwg.

Negeseuon:-

- *'Sicrhewch ddarpariaeth hyfforddiant gorfodol cenedlaethol ar gyfer holl staff y GIG (porthorion, clerigwyr, nyrsys, meddygon ac ati) yng Nghymru wrth iddynt ymuno â'r proffesiwn am y tro cyntaf os gwelwch yn dda, gan ganolbwyntio ar ymyriadau ysmegu a gwasanaethau rhoi'r gorau iddi. Efallai ei ymestyn i gymdeithasau tai, yr heddlu, athrawon ac ati.'*
- *'Edrych i sefydlu system cofnodi/casglu data cenedlaethol i sicrhau adrodd cywir. Angen data clir a chywir i sefydlu meincnodau a monitro.'*
- *'Sicrhau bod Cymru'n cymryd rhan lawn yn nhrafodaethau'r DU wrth ystyried dedfrydu a gorfodi (yn ymwneud â chynhyrchion tybaco).'*
- *'Angen neilltuo adnoddau digonol.'*
- *'Cyflwyno cytundebau tenantiaeth ddi-fwg.'*
- *'Llunio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnig ymatebion unigol wedi'u teilwra i'r rhai sy'n ysmegu ar hyn o bryd.'*
- *'Caniatewch lais cryf i bobl ifanc gan sicrhau eu bod yn chwarae rhan allweddol wrth roi'r cynllun ar waith.'*
- *'Sicrhewch mai lleisiau pobl, nid data sy'n arwain y cynllun.'*
- *'Mae cynllun dwy flynedd yn effeithiol, gall pobl golli momentwm a ffocws gyda strategaethau/cynlluniau hir. Mae hyn yn realistig.'*
- *'Peidiwch â bychanu cynulleidfaoedd â blaenoriaeth e.e. bobl feichiog, anogwch nhw.'*

- *'Rhowch eglurhad ar sefyllfa e-sigaréts, mae rhai sefydliadau yn ei ystyried yn ateb, tra nad yw eraill.'*
- *Mae angen dull cysylltiol ar draws yr holl sectorau sy'n ymwneud ag iechyd. Cydweithio i ddwyn ynghyd negeseuon sy'n ymwneud ag iechyd fel gordewdra, alcohol, ysmegu a'r amgylchedd.'*
- *'Nid gwaith yr Adran Iechyd yn unig yw hyn. Mae angen i gabinet Llywodraeth Cymru ddefnyddio ymrwymiad cyfunol, trawsadrannol, Dylai 'Cymru Ddi-fwg' weithio ar y cyd â chynlluniau presennol a newydd megis y 'Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol'. Bydd hyn yn cynorthwyo i fynd i'r afael yn well ag anghydraddoldebau gan sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithlon ar draws ffiniau iaith a ffiniau eraill.'*
- *Mae dull 'Help Fi i Stopio yn rhy haearnidd.. Mae angen buddsoddi yn y trydydd sector, sefydliadau sy'n gweithio ar lawr gwlad.'*



---

## 5.0 Casgliad

---

Mae'n amlwg o drafodaethau grŵp bod rhanddeiliaid yn gefnogol iawn i uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ddi-fwg (a gefnogir gan ganlyniadau'r bleidlais). Nodwyd arbedion iechyd ac ariannol fel y manteision amlycaf gyda'r anfanteision posibl yn cynnwys hygrededd yr uchelgais yn ogystal â phwysigrwydd ystyried gwahaniaethau rhanbarthol a chymhellion pobl i ysmegu.

Roedd cefnogaeth gref hefyd i'r tair thema a amlinellwyd yn *Strategaeth Rheoli Tybaco Cymru, Cymru Ddi-fwg*:-

- **Thema 1: Lleihau Anghydraddoldebau** Derbynioedd y thema gefnogaeth eang er bod y cynadleddwyr yn awyddus i bwysleisio'r heriau o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gostwng y gyfradd i 5% ymhlith y grwpiau hyn. Er mwyn cyflawni hyn mynegwyd yr angen am ddata cyfoes, cefnogaeth leol, dan arweiniad y gymuned ac ymwybyddiaeth o anghenion cymhleth y cynulleidfaoedd blaenoriaeth.
- **Thema 2: Cenedlaethau'r Dyfodol** Derbyniodd y thema gefnogaeth gan yr holl gynadleddwyr, gyda rhai yn nodi y dylid canolbwyntio mwy ar y thema hon nag eraill o ystyried ei phwysigrwydd.
- **Thema 3: Dull System Gyfan** Derbyniodd y thema groeso brwd, gyda'r cynrychiolwyr yn ymwybodol iawn o fanteision gweithio mewn partneriaeth, gan amlygu pwysigrwydd dull sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a rhannu data a gwybodaeth i gyflawni hyn.

Roedd cefnogaeth eang hefyd i'r blaenoriaethau a nodir yn y *drafft o'r Cynllun Cyflawni Tuag at Gymru Ddi-fwg 2022-2024*, er bod rhai cynadleddwyr wedi cwestiynu rhai blaenoriaethau.

- **Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 1: Amgylcheddau Di-fwg.** Roedd y cynadleddwyr yn gefnogol, fodd bynnag, mynegodd grwpiau bryderon ynglyn ag ymarferoldeb 'gorfodaeth' amgylcheddau di-fwg ac fe holwyd a ddylid cyfeirio adnoddau at fannau eraill.
- **Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 2: Gwelliant parhaus a chymorth ar gyfer arloesi.** Cynigiodd y cynrychiolwyr nifer o syniadau i gefnogi dulliau arloesol oedd yn pwysleisio'r angen i adeiladu cysylltiadau cymunedol a chymorth ac atebion digidol. Gofynnodd y cynadleddwyr hefyd am eglurder ynghylch rôl e-sigaréts.

- **Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 3: Grwpiau Blaenoriaeth**, derbyniodd y flaenoriaeth gefnogaeth gyda chais am ddata cywir i hwyluso cymorth wedi'i dargedu ar gyfer y grwpiau blaenoriaeth a nodwyd.
- **Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 4: Mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon a chefnogi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli tybaco**. Roedd yr adborth yn cefnogi'r flaenoriaeth hon a'i phwysigrwydd er ei bod yn amlwg mai cymysg oedd ymwybyddiaeth o'r mater ymhlith cynadledwyr.
- **Maes Gweithredu â Blaenoriaeth 5: Gweithio ledled y DU**. Roedd cytundeb unffurf ar gyfer y flaenoriaeth hon ymhlith cynadledwyr gyda hysbysiad i ystyried arfer gorau byd-eang hefyd

Roedd y **Negeseuon i'r Gweinidog** yn adlewyrchu blaenoriaethau sefydliadol a themâu a atgyfnerthwyd o'r drafodaeth grŵp. Er bod y pynciau'n eang eu cwmpas, cafwyd ffocws penodol ar yr angen i sicrhau adnoddau da ar gyfer y strategaeth.

Mae'r trafodaethau grŵp yn awgrymu bod rhanddeiliaid yn cytuno bod uchelgais Cymru ddi-fwg yn un gadarnhaol. Maent yn cefnogi'r themâu yn y strategaeth yn ogystal â'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun cyflawni drafft, gan bwysleisio yn ystod trafodaethau yr angen am adnoddau, hyfforddiant a phartneriaethau lleol cryf er mwyn llwyddo.